
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Briff 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch ebost at: SUSRWales@gov.wales.uk




**CEFNDIR**

Creu proses adolygu unigol lle mae galw am ddull amlasiantaeth, sy’n ymgorffori’r prosesau adolygu canlynol Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiadau Domestig; Adolygiad Lladdiadau Iechyd Meddwl; Adolygiad o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

**CYNNYDD HYD YN HYN**

- Drafftiwyd papur gan y tîm ADUS i ymdrin â materion yn ymwneud â chapasiti cyfyngedig Adolygwyr ar draws Cymru. Cyflwynwyd y papur hwn i’r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a bydd nawr yn cael ei gaboli cyn ei anfon at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan er ystyriaeth.

**CAMAU NESAF**

- Bydd y canllaw statudol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu ymatebion yr ymgynghoriad a bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gyflwyno i’r Bwrdd Gweinidogol ym mis Tachwedd.
- Defnyddir ymatebion yr ymgynghoriad i hysbysu’r rhaglen hyfforddiant a’r modd y trosglwyddir hi.
- Bydd y tîm ADUS yn gweithio gyda’r Byrddau Diogelu a phartneriaid allweddol eraill fel rhan o gyfnod trosiannol cyn gweithredu’n llawn yn Ebrill 2024

**DIWEDDARIAD HYB CYDLYNU ADUS**

- Bydd dangosfwrdd Hyb Cydlynu ar gyfer dogfennau allweddol fel y gronfa ddata ar gyfer adolygiadau parhaus yng Nghymru yn cael ei ddatblygu yn unol â gweithredu’r broses ADUS.

**GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD**

- Mae’r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd wedi nodi gweithgor i ddatblygu Canllaw Arferion Gorau ar gyfer ymgysylltu gyda dioddefwyr a/neu eu teuluoedd a phrif unigolion eraill.

**DIWEDDARIAD STORFA DDIOGELU CYMRU**

- Mae cyfnod un a dau o’r profi nawr wedi eu cwblhau ac roeddent yn canolbwyntio ar ddefnyddioldeb y storfa.
- Cynhelir trydydd cyfnod profi’r storfa’r hydref hwn.
- Mae tîm Storfa Ddiogelu Cymru nawr yn datblygu Cyfleuster Chwilio Argymhellion.

**YMGYNGHORIAD FFURFIOL ADUS**

- Mae’r ‘Crynodeb o’r Ymatebion’ ar ganllawiau statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl nawr wedi ei gyhoeddi. Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru drwy’r ddolen ganlynol: https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu
- Datblygwyd y ddogfen hon gan ddefnyddio’r ymatebion i’r ymgynghoriad a oedd wedi eu dadansoddi er mwyn adnabod themâu gan gynnwys:
    - Capasiti Adolygwyr
    - Cyllid
    - Llais dioddefwyr a theuluoedd
    - Hyfforddiant
    - Rhannu gwybodaeth
    - Partneriaethau
- Trafodir y rhain i gyd yn y ‘Crynodeb o’r Ymatebion’.

**This document is also available in English**